

## Chwilfrydedd Proffesiynol



Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol a ddaw i gysylltiad â phlant, rhieni a gofalwyr yn eu gwaith, fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu, ac yn effro i anghenion plant a phobl ifanc ddi-amddiffyn. Mae hyn yn gofyn bod gweithwyr proffesiynol yn chwilfrydig ac yn holgar am amgylchiadau a digwyddiadau teuluol, fel y gallant adnabod elfennau ddi-amddiffyn yn effeithiol, a risgiau o niwed posibl neu wirioneddol.

Anaml y mae plant yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin neu

eu hesgeuluso i ymarferwyr, ac os ydyn nhw, bydd hyn yn aml drwy ymddygiad neu sylwadau anarferol. Mae hyn yn gwneud y gwaith o adnabod camdriniaeth ac esgeulustod yn anodd i weithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau.

Y cam cyntaf i gadw plant yn ddiogel yw bod yn chwilfrydig yn broffesiynol ac i ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd ar y cyfle cynharaf, cyn i broblemau waethygu yn argyfwng.

Mae adolygiadau i farwolaethau plant yn tynnu sylw dro ar ôl tro am yr angen i weithwyr proffesiynol fod yn effro i'r risgiau o feddyliau sefydlog a rhagfarn ganfyddiadol. Mae Munro (2005b) yn rhoi sylwadau bod adroddiadau ymchwiliadau ailadroddus

yn dangos y camau anhygoel y mae rhai rhieni camdriniol yn eu cymryd i dwyllo ymarferwyr drwy gydymffurfiaid cudd, a phwysleisiodd adolygiad Daniel Pelka'r angen i weithwyr proffesiynol allu "meddwl am yr hyn na ellir meddwl amdano" yn hytrach na derbyn fersiynau rhieni o'r hyn sy'n digwydd gartref.

**Cydnabyddiaeth:** Chwilfrydedd Proffesiynol – hefyd wedi'i ddisgrifio gan yr Arglwydd Iaming (2003) yn ymchwiliad Victoria Climbié fel "ansicrwydd parchus" – yw'r gallu i archwilio a deall beth sy'n digwydd mewn teulu yn hytrach na gwneud tybiaethau neu dderbyn pethau yn ddi-gwestiwn, gwerthuso unrhyw wybodaeth a ddaw i law yn feirniadol a bod â meddwl agored.

Drwy gael meddwl agored, holgar a chwilfrydig, gall gweithwyr proffesiynol osgoi esboniadau cul a therfynol, drwy archwilio safbwyntiau niferus, amgen mewn sefyllfa.

**Materion Allweddol:** Caiff chwilfrydedd proffesiynol ei gefnogi gan :

- Ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gyda'r gallu i greu amgylchedd addas sy'n ddiogel, ac ymddiriedus, lle gellir gwrandao ar blant a phobl ifanc
- Nodi ac archwilio'r hyn nad ydyw'n cael ei drafod, cymaint â'r hyn sy'n cael ei drafod.
- Bod yn agored i safbwyntiau/parodrwydd eraill i geisio

ymatebion gwahanol.

- Gallu meithrin perthnasoedd agos mewn dull partneriaeth gyda theuluoedd, wrth fod yn gyson ymwybodol o anghenion plant / y graddau y bodlonir eu hanghenion
- Sgiliau meddwl yn feirniadol, sensitifrwydd a dyfalbarhad.
- Beirniadaethau'n seiliedig ar dystiolaeth nid optimistiaeth.

### Sut I ymateb:

- Ydw i'n parhau i fod yn chwilfrydig a holgar am beth rydw i'n ei weld a'i asesu?
- Ydw i'n agored i wybodaeth newydd?
- Pa mor hyderus ydw i fod gen i ddigon o wybodaeth i seilio

fy mhenderfyniadau arni?

- A oes angen i mi ychwanegu "rhybudd iechyd" am rym y dystiolaeth yn yr asesiad/goblygiadau ar gyfer gwneud penderfyniadau?
- A fyddwn i'n barod i newid fy meddwl?

### Gweithredu:

- Ymchwil pellach:
- NSPCC: Cydymffurfiaid cudd
- C4EO Briffio
- Gweithredu dros Blant: Meddu ar Chwilfrydedd Proffesiynol!
- Deg magl a sut i'w hosgoi
- Gweithio gyda theuluoedd sy'n dangos cydymffurfiaid cudd

<https://www.bwrdddilogelugogleddcymru.cymru/>